

## **Cyngor Cymuned Llanystumdwy,**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 4ydd Hydref, 2018 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; Gareth O Davies; Naomi Jones; William Ifor Hughes; Sian Angharad Parry; Aled Davies; Mr Richard Roberts y cyn Glerc, a'r Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor newydd Mrs Bethan Parry Jones.

### **1. Ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Angela Williams, Tegid Jones, Sion Aled Jones; Ceri Jones; a Thomas Prys Jones.

2. Llofnodwyd Cytundeb Cyflogaeth a Swydd Ddisgrifiad y Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol.

3. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed Fedi 2018.

4. Arwyddwyd cadarnhâd y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

6. Datgan buddiant personol. Cais am gyfraniad at gostau sefydlu Menter y Plu.

- Y Cyngorydd Anwen Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 16, oherwydd ei bod yn berthynas i aelod o'r pwyllgor.
- Y Cyngorydd Aled Evans yn datgan buddiant personol yn rhif 16, oherwydd ei fod yn gysylltiol hefo'r fenter.
- Y Cyngorydd Naomi Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 16, oherwydd fod ganddi gyswllt agos ag aelod o'r pwyllgor.

### **7. Cyngor Gwynedd**

1. Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; gwaith ailwynebu arfaethedig ger Betws Bach, Ynys a ger Gaerddu Bach, Chwilog i ddechrau ar 1af Hydref, 2018, hyd at 5 diwrnod gwaith i'w gwblhau. *Derbyniwyd.*

2. Cefnogaeth Gorfforaethol; Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, *Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi? Eglurwyd fod cyfarfodydd yn cael ei gynnal ar draws y Sir a'i bod hefyd yn bosibl llenwi arolwg ar wefan Cyngor Gwynedd i ddangos barn.*

3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ger tai Glan y Wern, Chwilog. Derbyniwyd llythyr gan y Rheolwr Uned Traffig yn cadarnhau fod hysbyseb yn cael ei osod ar y safle yn dangos cynnig ar roi llinellau dwbl. Dywedwyd fod llythyrau yn cael ei anfon i'r tai sydd gerllaw, yn rhoi 28 diwrnod iddynt ymateb o'r 26.09.2018. *Trafodwyd y byddai'n syniad cysylltu hefo Swyddog Gwasanaeth Tân i drafod y mater, sef problemau o gerbydau mawr yn cael trafferth pasio, ac i aros tan*

*cyfarfod mis Tachwedd i weld os oedd gwrthwynebiad wedi cael ei anfon i'r Adran Gwasanaeth Traffig.*

4. Adran Cefnogi Aelodau; Gwasanaeth Democrataidd, Rhaghysbysiad Cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd y Cambrian 30/11/18. *Derbyniwyd er gwybodaeth.*
5. Swyddog Cofrestru; Sedd Wag Achlysurol-Ward Llanystumdwy, Cyngor Cymuned Llanystumdwy- *mae poster wedi cael ei roi ar yr hysbysfwrdd o flaen y Neuadd yn Llanystumdwy a'r dyddiad cau oedd 19eg Hydref 2018.*
6. Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad ac Arriva Cymru, digwyddiad i drafod materion bwisiau ym Mhorthmadog ddydd Mercher Medi 26ain. *Y cyn Glerc wedi bod yn y digwyddiad yma ac wedi gofyn iddynt ystyried cynnig gwasanaeth drwy Rhoslan.*
7. Grant Cist Gymunedol Gwynedd.  
*\*Trwy ganiatâd y Cadeirydd: Trafodwyd mai Grant Chwaraeon, o Gronfa Chwaraeon Cymru yn cael ei weinyddu drwy Cyngor Gwynedd yw hwn, a bod unrhyw grwp cymunedol yn gallu gwneud cais amdano. Nodwyd fod y dyddiadau cau ar 05.11.18 a 10.02.19.*
8. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyfyngiadau Cyflymder 40mya- Chwilog. *Trafodwyd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno cyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr ar gyrion pentref Chwilog, tuag at hanner ffordd rhwng y ddau dro am Ion Llanarmon. Penderfynu derbyn.*

#### **8. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.**

1. Cais Rhif C18/0818/41/YA – Cais am hysbysiad o flaen llaw ar gyfer codi sied amaethyddol i gadw porthiant a pheiriannau; Tyddyn Heilyn, Chwilog.  
*Dim gwrthwynebiad.*
2. Cais Rhif C18/0851/41/TC – Cais am dystysgrif datblygiad ar gyfer gweithred bresennol o godi estyniad unllawr i ochr yr annedd; Bryn Gwdyn Uchaf, Chwilog.  
*Dim gwrthwynebiad.*

9. Lwfansau Cyngorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cyngorydd heb lofnodi.

#### **10. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Trafodwyd bod angen trafod mater ar y noson – sef fod angen gosod amserlen bws yn Chwilog. *Y Clerc am gysylltu hefo Uned Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd i weld os gellir trefnu i osod un yno.*

## Llangybi

1. Trafodwyd bod rhai pobl ardal Llangybi yn holi lle roedd y bin brown, yn ymyl mynwent Capel Helyg. *Cafwyd gwybodaeth gan y cyn Clerc fod y bin wedi cael ei gadw'n saff ar gyfer toriadau (gwellt ag ati) o'r fynwent. Ymddengys fod pob math o sbwriel yn cael ei roi yn y bin, fel potiau/plastig/papur.*
2. Mater yn cael ei drafod sef fod un fraich yn eisiau ar yr arwydd ffordd ar Groeslon Pengongl (ger Bronallt), Llangybi. *Clerc am holi Adran Priffyrdd.*

## Llanystumdwy

11. Mynwent Newydd Llanystumdwy- *derbyniwyd diweddariad o'r sefyllfa gan y Cyngorydd Naomi Jones, a'i bod angen cofrestru fel elusen.*
12. Mainc y Cyngor ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain. *Eglurwyd fod y fainc wedi malu, a'i bod yn edrych fel pebai wedi cael ei tharo, a bod tâp wedi cael ei roi o'i amgylch. Penderfynwyd y byddai'n well ei symud oddi yno, i wneud y safle'n daclus a sâff, a chysylltu hefo'r cwmni Yswiriant. Penderfynwyd peidio rhoi mainc arall yn yr un lle oherwydd ei bod yn rhy agos i'r lon fawr. Clerc am holi'r Cyngor i weld os oedd yn bosib gosod un arall ymhellach draw o'r lon ar y llwybr. Hefyd angen holi am brisiau mainc newydd cyn y cyfarfod nesaf.*

## Materion Ariannol

13. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn cynnwys y siec golledig ddaeth i'r fei! *Bu'n rhaid canslo siec a anfonwyd i Cyngor Gwynedd, a threfnu i'w talu gyda BACS, oherwydd nad oeddent wedi ei derbyn hi. Yna, fe wnaethant ddod o hyd iddi felly bu'n rhaid canslo'r siec yn y banc.*
14. Archwiliad Ariannol Allanol gan gwmni BDO a chwblhau'r archwiliad. *Mae'r archwiliad allanol wedi cael ei gymeradwyo, ac mae'r hysbysiadau wedi cael ei arddangos yn y manau priodol, o fewn y pump ward. Roeddent yn awgrymu y dylem ail edrych ar sut yr ydym yn llenwi rhai darnau o'r ffurflen. Bydd yn rhaid gofyn am gyngor gan yr Adran Archwilio cyn diwedd y flwyddyn ariannol.*
15. Trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid - *am ei gynnal ar 18fed Hydref 2018, yn Neuadd Chwilog.*
16. Cais am gyfraniad tuag at gostau sefydlu Menter y Plu. *Roedd y Clerc blaenorol wedi ymgynghori hefo'r Swyddog Monitoro ac Adran Archwilio Cyngor Gwynedd ynglyn â'r mater. Penderfynwyd y gellir cysidro'r cais ar sail "cymorth i sefydlu achos yn y gymuned". Penderfynwyd cyfrannu £200.00, o'r Cyfrif Budd Cymunedol, fel taliad brys, (siec rhif 100010).*
17. Aelodaeth o'r SLCC a'r ALCC - *eglwyrdd y byddai'r aelodaeth yn trosglwyddo o enw'r cyn Clerc i'r Clerc newydd.*

18. Penderfynwyd talu'r anfonebau canlynol:

- a. 'Trefn' am dorri llwybrau Ynysgain Bach, 2 doriad £150 -Tŷ Newydd 2 doriad £190, a gyferbyn â cheg lôn Abercin £20-; cyfanswm £360 -,taliad BACS.
- b. Neuadd Llanystumdwy; llogi'r Neuadd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, £30-, taliad BACS.
- c. Cyfrifiaduron Porthmadog, gliniadur, llygoden a cho bach i'r Clerc £349.98c yn cynnwys TAW, taliad BACS.

ch. Cyllid a Thollau EM, treth ar enillion y cyn Glerc, Gorffennaf, Awst, Medi 2018. £230 - taliad siec (rhif 100985).

ch. Cyflog chwarter y Clerc, Gorffennaf, Awst, Medi 2018, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.953c.= £985.77c  
Oriau ychwanegol: 5 awr x 3 mis x £10.953c = 64.30c  
Cyfanswm = £1,150.07c

Cyllid a Thollau EM; £1,150 - x 20% = £230 -; cyflog net = £920-, taliad siec (siec rhif 100986)

- d. Costau'r Clerc, Gorffennaf, Awst, Medi 2018; £295.17c; taliad siec (rhif 100987).

\*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

19. IRPW – Ymgynghoriad Adroddiad BlynyddolDrafft PACGA – Chwefror 2019-  
*penderfynu ei drafod yn y Pwyllgor nesaf fis Tachwedd.*

It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.